# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2019 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Richard Mainon, Barry Mellor, Bob Murray, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Andrew Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams a/ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol (CR), a Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mabon ap Gwynfor, Jeanette Chamberlain-Jones, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Jones, Tina Jones, Geraint Lloyd-Williams, Christine Marston, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Glenn Swingler, Rhys Thomas, David Williams a/ac Eryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Joe Welch gysylltiad personol yn eitem 3 ar y rhaglen oherwydd ei fod yn aelod o'r un clwb rhedeg â'r ymgeisydd.

## 3 PENODI PENNAETH GWASANAETH CYLLID AC EIDDO

Bu i ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor adrodd ar y broses recriwtio a gynhaliwyd, a arweiniodd at nifer o geisiadau a rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer y broses asesu. Cynghorwyd Aelodau bod Panel Penodiadau Arbennig o gynghorwyr wedi nodi un ymgeisydd gyda'r potensial i gael ei benodi, ac fe'i gwahoddwyd i fynychu cyfarfod y Cyngor heddiw.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad i'r Cyngor ac ymateb i gyfres o gwestiynau gan yr aelodau.

Wedi i'r ymgeisydd adael y Siambr, trafododd yr aelodau ei gyflwyniad, ymatebion i'r cwestiynau a'i berfformiad yn ystod y broses asesu.

***PENDERFYNWYD – penodi Steve Gadd i swydd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo.***